# Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

**2016 dccc 6**

**RHAN 3**

FFURFLENNI TRETH, YMHOLIADAU AC ASESIADAU

**PENNOD 7**

YMWARED YN ACHOS ASESIAD GORMODOL NEU DRETH A ORDALWYD

*Seiliau eraill dros wrthod hawliadau*

**67 Achosion pan na fo angen i ACC roi effaith i hawliad**

(1) Nid oes angen i ACC roi effaith i hawliad am ymwared a wneir o dan adran 63 os yw'r hawliad yn dod o fewn achos a ddisgrifir yn yr adran hon, neu i'r graddau y mae'n gwneud hynny.

(2) Achos 1 yw pan fo'r swm o dreth ddatganoledig a dalwyd, neu sy'n agored i'w dalu, yn ormodol oherwydd—

(a) camgymeriad mewn hawliad, neu

(b) camgymeriad o ran gwneud hawliad, neu fethu â gwneud hawliad.

(3) Achos 2 yw pan fo'r hawlydd yn gallu ceisio ymwared drwy gymryd camau eraill o dan y Rhan hon, neu pan fydd yn gallu gwneud hynny.

(4) Achos 3 yw—

(a) pan allai'r hawlydd fod wedi ceisio ymwared drwy gymryd camau o'r fath o fewn cyfnod sydd wedi dod i ben erbyn hyn, a

(b) pan wyddai'r hawlydd neu pan ddylai'n rhesymol fod wedi gwybod, cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bod ymwared o'r fath ar gael.

(5) Achos 4 yw pan wneir yr hawliad ar seiliau—

(a) sydd wedi eu rhoi gerbron y tribiwnlys yn ystod apêl gan yr hawlydd sy'n ymwneud â'r swm a dalwyd neu'r swm sy'n agored i'w dalu, neu

(b) sydd wedi eu rhoi gerbron ACC yn ystod adolygiad gan yr hawlydd sy'n ymwneud â'r swm a dalwyd neu'r swm sy'n agored i'w dalu, sy'n cael ei drin fel pe bai wedi ei ddyfarnu gan y tribiwnlys yn rhinwedd adran 184.

(6) Achos 5 yw pan wyddai'r hawlydd, neu pan ddylai'n rhesymol fod wedi gwybod, am y seiliau ar gyfer yr hawliad cyn y diweddaraf o'r canlynol—

(a) y diwrnod pan ddyfarnodd y tribiwnlys ynghylch apêl berthnasol y gellid bod wedi cyflwyno'r sail fel rhan ohoni (neu'r dyddiad y mae i'w thrin fel pe bai wedi ei dyfarnu felly);

(b) y diwrnod pan dynnodd yr hawlydd apêl berthnasol i'r tribiwnlys yn ôl;

(c) diwedd y cyfnod pan oedd gan yr hawlydd hawl i wneud apêl berthnasol i'r tribiwnlys.

(7) Yn is-adran (6), ystyr "apêl berthnasol" yw apêl gan yr hawlydd sy'n ymwneud â'r swm a dalwyd neu'r swm sy'n agored i'w dalu.

(8) Achos 6 yw pan dalwyd y swm o dan sylw neu pan fo'n agored i'w dalu—

(a) o ganlyniad i achos sy'n gorfodi talu'r swm hwnnw a ddygwyd yn erbyn yr hawlydd gan ACC, neu

(b) yn unol â chytundeb rhwng yr hawlydd ac ACC sy'n setlo achos o'r fath.

(9) Achos 7 yw—

(a) pan fo'r swm a dalwyd, neu'r swm sy'n agored i'w dalu, yn ormodol oherwydd camgymeriad wrth gyfrifo rhwymedigaeth yr hawlydd i dreth ddatganoledig, a

(b) pan wnaed y camgymeriad oherwydd bod rhwymedigaeth wedi ei chyfrifo yn unol â'r arfer a oedd yn bodoli'n gyffredinol ar y pryd.

(10) Nid yw achos 7 yn gymwys pan fo'r swm a dalwyd, neu'r swm sy'n agored i'w dalu, yn dreth ddatganoledig sydd wedi ei chodi'n groes i gyfraith yr UE.

(11) At ddibenion is-adran (10), caiff swm o dreth ddatganoledig ei chodi'n groes i gyfraith yr UE os yw'r dreth ddatganoledig a godir, yn yr amgylchiadau o dan sylw, yn groes i—

(a) y darpariaethau sy'n ymwneud â rhydd symudiad nwyddau, personau, gwasanaethau a chyfalaf yn Nheitlau II a IV o Ran 3 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd, neu

(b) darpariaethau unrhyw gytuniad dilynol sy'n disodli'r darpariaethau a grybwyllir ym mharagraff (a).